## Pleidleisiau a Thrafodion ar gyfer dydd Mercher, 12 Tachwedd

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

**2.23pm**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Trosglwyddwyd cwestiynau 5 + 7 er mwyn rhoi atebion ysgrifenedig iddynt a chafodd cwestiwn 9 ei dynnu yn ôl.

**2.41pm**
**Cwestiwn Brys**
**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);**
A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adroddiad diweddaraf ar ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerdydd.

**3.07pm**
**Pwynt o Drefn** – Roedd Mark Isherwood am i'r Gweinidog dros Gyllid a Gwasanaethau Cyhoeddus egluro ffigur a ddyfynnodd yn ei hateb i'w gwestiwn.

**3.08pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003**
*NDM1689 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003, y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2003.

*NDM1690 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4

Tachwedd 2003, yn ymwneud â’r gorchymyn drafft, Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 yn cael eu gwneud yn unol â:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2003;

b) y memorandwm cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Tachwedd 2003; a

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd at yr Aelodau drwy’r e-bost ar 5 Tachwedd 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 51; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 51
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.14pm**
**Dadl ar Gynllun Gweithredu ELWa**
*NDM1691 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi’r adroddiad annibynnol ar gynllun gweithredu ELWa;

2. Yn croesawu’r hyn y mae ELWa wedi’i gyflawni o ran datblygu ei brosesau rheoli a busnes a bwrw ymlaen â’i ddatblygiadau trefniadol yn unol â’i gylch gwaith.

*Cafodd copi o’r adroddiad annibynnol ar gyllun gweithredu ELWa ei anfon at yr Aelodau drwy’r e-bost ar 5 Tachwedd 2003.*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1 dileu 'Yn nodi' a rhoi 'Yn croesawu' yn ei le.

**Gwelliant 2**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Dileu pwynt 2 yn ei gyfanrwydd ac yn ei le rhoi:

"Yn nodi gyda phryder y diffygion difrifol yn ELWa."

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 2 dileu 'Yn croesawu'r hyn y mae ELWa wedi'i gyflawni' a rhoi 'Yn nodi'r cynnydd a wnaeth ELWa' yn ei le.

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl 'brosesau rheoli a busnes' ychwanegu 'fel yr amlinellir yn ei gynllun gweithredu'.

**Gwelliant 5**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu'r canlynol fel paragraffau newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod mai cyfrifoldeb y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes oedd darparu cyfarwyddyd clir a digonol i ELWa fel corff newydd a pharhau i roi cymorth wrth i'r corff dyfu.

Yn condemnio'r Gweinidog am fethu â darparu canllawiau a chymorth digonol a arweiniodd at y cyhuddiadau damniol am ELWa mewn nifer o adroddiadau.

Yn mynnu bod y Gweinidog bellach yn derbyn cyfrifoldeb llawn am y problemau a grewyd i ELWa oherwydd iddi fethu'n llwyr â chynnig canllawiau i'r corff hwnnw.

Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i adolygu rôl y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn y mater hwn ac ystyried a yw'r Gweinidog yn gallu rhoi'r cyfarwyddyd clir anghenrheidiol ar gyfer datblygiad ELWa yn y dyfodol."

**Gwellaint 6**
**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw am ymchwiliad i rôl ELWa mewn perthynas ag Is-adran Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad ac yn benodol a ddylai ELWa gael ei symud i mewn i'r Cynulliad a'i wneud yn fwy atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidog.'

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 10; Ymatal 11; Yn erbyn 34; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 28**;** Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 15; Ymatal 11; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig fel y'i diwygiwyd**
O blaid 34; Ymatal 0; Yn erbyn 21; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Cynnig**

**4:28pm**
**Dadl ar Resymoli'r System Iawndal Da Byw**
*NDM1692 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori ar Symleiddio'r Trefniadau Iawndal Anifeiliaid, a gyhoeddwyd yng Nghymru a Lloegr ar 27 Hydref 2003 ac a fydd yn sail ar gyfer ystyried materion iawndal.

*Gellir darllen y ddogfen ymgynghori, "Cynigion ar gyfer symleiddio’r trefniadau iawndal ar gyfer rheoli clefydau anifeiliaid hysbysadwy" ar y we drwy ddefnyddio’r cysylltiadau isod:*

*http://www.cymru.gov.uk/subiagriculture/content/consultations/compensation-w.pdf*

http://www.wales.gov.uk/subiagriculture/content/consultations/compensation-e.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'Croesawu' a rhoi 'Nodi' yn ei le.

**Gwelliant 2 - Ni ddewiswyd y gwelliant yma**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ym mharagraff 2, dileu "Yn croesawu'r" a rhoi "Yn nodi'r" yn ei le.

**Gwelliant 3**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'tra'n cydnabod bod angen rhoi sylw i unrhyw golledion a ddaw yn sgil hynny'.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 3**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig**
O blaid 33; Ymatal 6; Yn erbyn 10; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y Cynnig**

**5.01pm**

**Dadl fer- NDM1688 Leanne Wood (Canol De Cymru);** Iechyd Meddwl

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.28pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 11 Tachwedd 2003

- Rheoliadau Cyllidebau AALl, Cyllidebau Ysgolion a Chyllidebau Ysgolion Unigol (Cymru) 2003 - LD2388
- The LEA Budget, Schools Budget and Individual Schools Budget (Wales) Regulations 2003 - Regulatory Appraisal - LD2389 - (Dim Copi Cymraeg ar Gael)
- Rheoliadau Asiantaethau Nrsys (Cymru) (Diwygio) 2003 – LD2390
- The Nurses Agencies (Wales) (Amendment) Regulations 2003 - Regulatory Appraisal - LD2391 - (Dim Copi Cymraeg ar Gael)
- Gorchymyn y Dreth Gyngor (Bandiau Prisio) (Cymru) 2003 - LD2392
- The Council Tax (Valuation Bands) (Wales) Order 2003 – Regulatory Appraisal – LD2393 – (Dim Copi Cymraeg ar Gael)
- Gorchymyn Deddf Iechyd (Cymru) 2003 (Cychwyn Rhif 2) 2003 - LD2394
- Rheoliadau Cynhyrchion Siwgr Penodedig (Cymru) 2003 – LD2395
- Rheoliadau Mêl (Cymru) 2003 - LD2396

### Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 11 Tachwedd 2003

- LC772 - Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003 - LD2397
- LC774 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Pensiynau) (Cymru) 2003 - LD2398
- LC764 - Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD2399
- LC765 - Rheoliadau Dwr Mwynol Naturiol, Dwr Ffynnon a Dwr Yfed wed'i Botelu (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2400
- LC766 - Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2003 - LD2401
- LC768 - Rheoliadau Cynhyrchion Coco a Siocled (Cymru) 2003 - LD2402
- LC769 - Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003 -

LD2403

- LC770 - Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2003 - LD2404
- LC773 - Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2003- LD2405
- LC763 - Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Interim) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003 - LD2406